


Trywydd Copr Copper Trail

Yn cynnwys data Arolwg Ordans © Hawffraint a hawl cronfa ddata y Goron 2011
 Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2011



- Rhwydwaith Beicio Genedlaethol ar y ffordd
National Cycle Network on road route
- Lwybrau cyswllt
Linking route
- Rheilffordd (segur)
Railway (not in operation)
- Man Gwybodaeth
Information point
- Tafarn
Public house
- Siopau lleol
Local shops
- Caffi
Café
- Swyddfa bost
Post office
- Toiledau
Toilets
- Canolfan Ymwelwyr
Visitor centre
- Gwarchodfa natur
Nature Reserve
- Canolfan Hamdden
Leisure centre
- Parcio
Parking
- Cymrwch Ofal
Take care
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cod Beicio Da**Ufuddhewch i reolau'r ffordd****Byddwch yn gwrtais**

- Ildiwch i gerddwyr
- Cofiwch fod rhai pobl yn drwm eu clyw neu â nam ar eu golwg
- Pan fydd defnyddwyr cadair olwyn neu farchogwyr ildiwch iddynt
- Canwch gloch neu defnyddiwch eich llais yn gwrtais i rybuddio eich bod yn dod

Gofalwch am yr amgylchedd

- Allwch chi gyrraedd dechrau eich taith ar feic neu gludiant cyhoeddus?
- Dilynwch y Cod Cefn Gwlad; yn arbennig, parchwch gnydau, da byw a bywyd gwyllt ac ewch â'ch sbwriel adref

Edrychwch ar ôl eich hunan

- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth gyffwrdd, wrth feicio i lawr ellyydd neu pan fo wyneb y ffordd neu'r llwybr yn rhydd
- Mewn ardaloedd anghysbell gwnewch yn siwr fod gennych fwyd, offer trwsio beic, map a dillad tywydd gwlyb
- Cadwch eich beic yn addas i'r ffordd; defnyddiwch olau pan fo gwelededd yn wael
- Ystyriwch wisgo helmed a dillad hawdd eu gweld

Good Cycling Code**Obey the rules of the road****Be courteous**

- Give way to pedestrians
- Remember that some people are hard of hearing or visually impaired
- Where there are wheelchair users or horse riders please give way
- Ring a bell or politely call out to warn of your approach

Care for the environment

- Can you reach the start of your journey by bike or public transport?
- Follow the Country Code; in particular, respect crops, livestock and wildlife and take litter home

Look after yourself

- Take special care at junctions, when cycling downhill and on loose surfaces
- In remote areas carry food, repair kit, map and waterproofs
- Keep your bike roadworthy; use lights in poor visibility
- Consider wearing a helmet and conspicuous clothing

Beicio yw un o'r ffyrdd gorau i weld arfordir ardderchog ac atyniadau rhyfeddol Ynys Môn, ac ar yr un pryd aros yn iach a chynorthwyo'r amgylchedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r Trywydd Copr (Llwybr Beicio Cenedlaethol 566) yn dilyn lonydd tawel o amgylch ochr ogleddol yr ynys, sy'n rhoi cyfle delfrydol i feicwyr newydd a dechreuwyr yn ogystal â rhai brwd ac ymroddedig. Mae'r Trywydd Copr yn cydio wrth Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 (LIBC 5) i gwblhau taith gylchol hyfryd 34 milltir (55 km) yn y rhan hon o'r ynys.

Mae Melin Llynon, ger Llanddeusant, neu Lanerchymedd yn lleoliadau delfrydol i ddechrau'r daith gan fod cyfleusterau parcio, toiledau a chaffi ar gael. Gall y daith gael ei beicio y naill gyfeiriad neu'r llall ond fe'i disgrifir isod fel dull gwrthwyneb i'r cloc er mwyn manteisio i'r graddau gorau ar y dringfeydd.

Ar ôl mynd tua'r dwyrain ar LIBC 5 mae'r Trywydd Copr yn nadreddu ar hyd lonydd i Gapel Parc ac yna ymlaen i Bensarn. Mae amlinell Mynydd Parys ar y chwith, gellir gweld olion yr hen fwynglawdd copr segur o hyd a'r mwynau cyfoethog yn y rhan hon o'r ynys sydd wedi rhoi'r enw i'r daith. Ar ôl mynd heibio i eglwys fach hyfryd Llaneilian fe ddewch i Borthladd Amlwch, lle yr argymhellir mynd ar wyriad i'r ganolfan dreftadaeth. Ewch drwy dref Amlwch a byddwch yn ofalus ar y B5111 wrth deithio i Lanfechell.

Wrth i chi fynd am Dregele daw amlinell anferth Gorsaf Bwer Wylfa i'r golwg wrth i chi fynd i gyfeiriad trwyn gogleddol yr ynys. Mae'r warchodfa natur ym Mae Cemlyn yn lleoliad delfrydol i gael egwyl a chyfle i wyllo adar y môr cyn i chi fynd drwy Lanfair-yng-Nghornwy a dringo uwchlaw Bae Caergybi â'i olygfeydd ardderchog.

Noder bod nifer o ddringfeydd ar y Trywydd Copr ac felly gallai'r daith gylchol gyfan fod yn ormod i rai beicwyr ifanc neu ddechreuwyr. Ceir dau ddewis posibl sydd heb arwyddion (wedi'u hamlygu ar y map) i leihau hyd y daith ond eich dychwelyd i'r man cychwyn a argymhellir.

Ceir nifer o deithiau beicio gwledig eraill ar yr ynys ac fe welwch arwyddion ar gyfer rhai o'r rhain ar adrannau o'r Trywydd Copr/LIBC 5. Gellir cael rhagor o fanylion am y teithiau hyn, a theithiau cerdded a beicio eraill Ynys Môn, yn eich canolfan groeso leol. Mae cyfleusterau parcio beic ar gael yng nghanol y mwyafrif o drefi a phentrefi gyda nifer mawr o atyniadau i ymwelwyr hefyd yn darparu parcio pwrpasol.

Cycling is one of the best ways of getting to see Anglesey's superb coastline and wonderful attractions, whilst also staying healthy and helping the environment.

The majority of the Copper Trail (National Cycle Route 566) follows quiet lanes around the northern side of the island which provides an ideal opportunity for new and novice cyclists as well as committed enthusiasts. The Copper Trail ties in with National Cycle Route 5 (NCR 5) to complete a wonderful 34 mile (55 km) circular ride in this part of the island.

Llynon Mill, near Llanddeusant, or Lanerchymedd are ideal locations to start the ride as parking, toilet and café facilities are available. The route can be ridden in either direction but is described below in an anticlockwise way to take best advantage of the climbs.

After heading east on NCR 5 the Copper Trail winds its way along the lanes to Capel Parc and then on to Penysarn. The outline of Parys Mountain is on your left, the remnants of this disused copper mine can still be seen and it's the rich minerals in this part of the island that have given this route its name. After passing by the wonderful little church at Llaneilian you enter Amlwch Port where a diversion to the heritage centre is recommended. Ride through the main town of Amlwch and take care on the B5111 en route to Lanfechell.

As you head to Tregele the imposing outline of Wylfa Power Station comes into view as you head towards the northern tip of the island. The nature reserve at Cemlyn Bay is an ideal location to take a break and enjoy the seabirds before you pass through Llanfair-yng-hornwy and climb up above Holyhead Bay with its excellent views.

Please note that there are a number of climbs on the Copper Trail and so the entire circular route may be too much for some young or novice cyclists. There are two unsigned options available (highlighted on the map) to reduce the length of the ride but return you to the recommended start point.

There are a number of other rural cycling routes on the island and you will see some of these signed on sections of the Copper Trail / NCR 5 ride. Further details of these rides, and Anglesey's other walking & cycling routes, can be found at the local tourist information centre.

Cycle parking is available in the majority of town and village centres, bus and rail stations with a large number of visitor attractions also providing dedicated parking.

Cysylltiadau Defnyddiol / Useful links**Beicio / Cycling**

www.croesomon.co.uk/beicio
www.visitanglesey.co.uk/cycling

Trafnidiaeth Gyhoeddus / Public Transport

Traveline Cymru ☎: 0871 200 22 33
www.traveline-cymru.info

Ymholiadau National Rail / National Rail Enquiries

☎: Cymraeg 0845 60 40 500 / 08457 48 49 50
www.nationalrail.co.uk

Gwybodaeth Twristiaid / Tourist Information

Canolfan Groeso Llanfairpwll / Llanfairpwll Tourist Information Centre,
Pringles Retail Outlet,
Ffordd Caergybi / Holyhead Road,
Llanfairpwll LL61 5UL.

☎: 01248 713177

E-bost / Email: anglesey@nwtic.com

www.croesomon.co.uk

www.visitanglesey.org.uk

www.geomon.org.uk - dathlu treftadaeth ddaearyddol unigryw Ynys Môn / celebrating the island's unique geological heritage

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

This project has received funding through the Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Assembly Government and the European Agricultural Fund for Rural Development.

Yn cyflwyno Sustrans

Sustrans yw'r elusen sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd. Mae ein gwaith yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddewis siwrneiau iachach, glanach a rhatach gyda gwell lleoedd a gofodau i symud drwyddynt a byw ynddynt.

Mae'n bryd i ni gyd ddechrau gwneud dewsiadau teithio craffach. Camwch ymlaen a chefnogwch Sustrans heddiw.

About Sustrans

Sustrans is the charity that's enabling people to travel by foot, bike or public transport for more of the journeys we make every day. Our work makes it possible for people to choose healthier, cleaner and cheaper journeys, with better places and spaces to move through and live in.

It's time we all began making smarter travel choices. Make your move and support Sustrans today.


www.sustrans.org.uk
0845 113 00 65

© Hawffrain y Goron (2011) - Llun clawr: © CS Ynys Môn
© Crown copyright (2011) - Cover photo: © Ynys Môn CC
Elusen Gofrestredig rhif 326550 (Lloegr a Chymru) SCO39263 (Yr Alban)
Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SCO39263 (Scotland)



Trywydd Copr
Copper Trail

Llwybr Beicio Gogledd Môn
North Anglesey Cycle Route



Bae Caergybi
Holyhead Bay